# Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol (BHNOG)
# Grŵp Prinder Gwaed (BSG)
**Cylch Gorchwyl**

## 1. Pwrpas

Sefydlwyd y Grŵp Prinder Gwaed, dan nawdd y Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol (BHNOG) mewn ymateb i heriau parhaus o fewn y gadwyn cyflenwi gwaed. Mae'r rhain wedi bod yn arbennig o amlwg yn ystod y 12 – 18 mis diwethaf, gyda Gwasanaeth Gwaed Cymru a gwasanaethau eraill y DU yn wynebu heriau sylweddol o ran sicrhau cyflenwad i ateb y galw.

Arweiniodd hyn at sefydlu grŵp ar lefel genedlaethol, yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol, i hwyluso rheoli'r gadwyn cyflenwi gwaed, gan gynnwys y defnydd priodol o waed. Gan adeiladu ar strwythurau sefydledig a chydnabod bod BHNOG eisoes yn cynnwys llawer o'r aelodaeth ofynnol, cytunwyd i sefydlu'r Grŵp Prinder Gwaed, a fyddai'n adrodd i BHNOG.

Pwrpas y Grŵp Prinder Gwaed ydy gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod gwaed yn cael ei ddefnyddio'n briodol trwy gyfrwng egwyddorion rheoli gwaed cleifion. Os bydd rhybudd yn cael ei uwchgyfeirio i'r cyfnod cyn y cyfnod oren neu i'r cyfnod oren neu goch, dylai hyn gael ei gyfathrebu a'i reoli'n effeithiol o fewn y Byrddau Iechyd, gan ddefnyddio dogfennau prinder perthnasol[1].

Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol (BHNOG)
Grŵp Prinder Gwaed (BSG)
Cylch Gorchwyl

## 2. Nod

Nod y Grŵp Prinder Gwaed ydy uwchgyfeirio, cyfathrebu a rheoli unrhyw heriau i'r gadwyn cyflenwi gwaed ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol eraill, er mwyn osgoi prinder gwaed. Gellir cymhwyso hyn i unrhyw gyfansoddion gwaed, ond nid yw'n cynnwys cynhyrchion gwaed a fyddai'n cael eu rheoli gan y Grŵp Imiwnoglobwlin Mewnwythiennol (IVIG). Bydd y Grŵp Prinder Gwaed yn gwneud yn siŵr bod unrhyw brinder yn cael ei reoli'n effeithiol a'i gyfleu i gydweithwyr clinigol, gan sicrhau bod gwaed yn cael ei roi i'r cleifion hynny sydd â'r angen mwyaf.

## 3. Llywodraethu

Mae'r Grŵp Strategaeth Addysg yn atebol i BHNOG, ac yn dilyn llwybrau llywodraethu cydnabyddedig wedi'u diffinio yng nghylch gorchwyl BHNOG[2].

## 4. Cadeirydd

Bydd y grŵp Grŵp Prinder Gwaed yn cael ei gadeirio gan gadeirydd presennol BHNOG. Bydd Dirprwy Gadeirydd yn cael ei ddewis o blith aelodau'r grŵp hefyd.

## 5. Aelodaeth

| |
|---|
| Cadeirydd BHNOG |
| Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwaed Cymru (GGC) |
| Ymgynghorydd gyda chyfrifoldeb BHP/Cyfarwyddwr Meddygol GGC |
| Arweinwyr Ffrwd Gwaith BHNOG |
| Arweinydd y Tîm Iechyd Gwaed (BHT) |
| Cynrychiolydd BHNOG ar y Fforwm ar gyfer Rheolwyr Labordy Trallwyso |
| Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru |

Bydd y cynrychiolwyr a nodir yn y tabl aelodaeth uchod yn cael eu diffinio fel aelodau craidd o'r Grŵp Prinder Gwaed. Gellir cyfethol aelodau eraill i'r grŵp yn ôl yr angen ar gytundeb y Cadeirydd.

## 6. Amlder y Cyfarfodydd:

Bydd y Grŵp Prinder Gwaed yn cyfarfod ar sail ad-hoc, a bydd yn dibynnu ar:

- Wybodaeth ynghylch lefelau stoc cyfredol/a ragfynegir yng Nghymru a gweddill y DU. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddi'r galw, gweithgareddau casglu ac argaeledd cydgymorth.
- Unrhyw faterion critigol yng Nghymru a allai effeithio ar gyflenwad cenedlaethol

- Rybuddion neu fygythiadau estynedig i'r cyflenwad gwaed, heb lawer o allu i wella stociau cenedlaethol.
- Bydd cyfarfodydd yn cael eu galw gan Gyfarwyddwr GGC neu Ddirprwy enwebedig, drwy gydweithredu â Chadeirydd BHNOG pan fydd un o'r meini prawf uchod wedi'i gyrraedd.
- Gellir galw cyfarfodydd eithriadol yn ôl disgresiwn cyfarwyddwr GGC.

### Cymorth Gweinyddol

Mae'r Grŵp Prinder Gwaed yn cael ei letya gan Wasanaeth Gwaed Cymru, sy'n cefnogi gweinyddu'r cyfarfodydd. Mae'r trefniadau hyn yn caniatáu ar gyfer trefnu cyfarfodydd; dogfennu a chynnal cofnodion o'r holl gyfarfodydd a gynhelir; a chyfathrebu'n effeithiol ar ran y pwyllgor.

## 7. Dogfennaeth Angenrheidiol

- Nodiadau'r cyfarfod blaenorol a'r log gweithredu
- Dogfennaeth sy'n cefnogi eitemau ar yr agenda e.e. data gwytnwch, data galw, gwastraff a chyhoeddi data ac ati.

## 8. Cylch gorchwyl

- Bydd y Grŵp Prinder Gwaed yn cael ei letya gan Wasanaeth Gwaed Cymru, sy'n cefnogi gweinyddu'r cyfarfodydd.
- Bydd y grŵp yn gweithio gyda grwpiau clinigol, sydd yn defnyddio symiau mawr o gelloedd coch i gefnogi rheoli gwaed cleifion unigol ar lwybrau gofal priodol; bydd hyn yn cynnwys datblygu arferion i gefnogi diogelwch, a defnyddio gwaed dim ond pan fydd yn hollol angenrheidiol.
- Os bydd rhybudd yn cael ei uwchgyfeirio i'r cyfnod cyn y cyfnod oren neu i'r cyfnod oren neu goch, bydd hyn yn cael ei gyfathrebu a'i reoli'n effeithiol o fewn y Byrddau Iechyd, gan ddefnyddio dogfennau prinder perthnasol a llwybrau uwchgyfeirio sefydledig
- Sicrhau bod unrhyw brinder yn cael ei reoli'n effeithiol a'i gyfleu i gydweithwyr clinigol, a sicrhau bod gwaed yn cael ei roi i'r cleifion hynny sydd â'r angen mwyaf.

## 9. Geirdaon

[1] Cynllun Prinder Gwaed GGC: https://wbs-intranet.cymru.nhs.uk/bht/wp-content/bht-uploads/sites/4/2020/08/WBS-Red-Cell-Shortage-Plan_July-2020_final. pdf

[2] TOR BHNOG: https://bhnog.wales.nhs.uk/wp-content/uploads/2022/02/TOR-Welsh-Version.pdf